# Swyddogaethau Cyfarwyddwyr Anweithredol

## Partneriaeth Actif Canolbarth y De

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



**CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP** | **PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE**

# Llythyr Gan y Cadeirydd

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am eich diddordeb ym Mhartneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD).

Mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, sefydlwyd Partneriaeth Actif Canolbarth y De yn 2024 i helpu mwy o bobl ar draws ein rhanbarth i fwynhau a chael mynediad at weithgarwch corfforol. Mae ein cenhadaeth yn glir:

*"Creu newid sylweddol yn iechyd a lles ein cymunedau lleol drwy gydweithio ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lefelau gweithgarwch."*

Mae'r symudiad at Bartneriaethau Rhanbarthol yn rhoi cyfle unigryw i ni fynd i'r afael â heriau lleol ar draws Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morganwg, a Chaerdydd. Byddwn yn mabwysiadu dull rhanbarthol o ddiwallu anghenion lleol fel ein bod yn gallu leihau anghydraddoldebau mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae PACD yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, o dan fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth galon y strwythur hwn mae Bwrdd Cyfarwyddwyr medrus, cynhwysol ac amrywiol, a fydd yn gweithio gyda'n partneriaid i siapio a chyflawni ein cyfeiriad strategol.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys gwirfoddolwyr angerddol sy'n cyfrannu eu hamser, eu profiad a'u harbenigedd i'n helpu ni i gyflawni ein nodau. Er mwyn llywodraethu'n effeithiol a pharhau i fod yn flaengar, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau ac ymrwymiad i gynhwysiant.

Mae'n hanfodol bod gennym amrywiaeth o safbwyntiau i lywodraethu'n effeithiol, ac i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad cynhwysol a blaengar sydd wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio pedwar unigolyn arloesol i ymuno â'n Bwrdd fel Cyfarwyddwyr Anweithredol. Rydym yn chwilio'n benodol am y canlynol:

- Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr Masnachol
- Cyfarwyddwr Anweithredol

Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd:

- Yn hyderus yn gofyn cwestiynau craff sy'n sbarduno cynnydd,
- Â phrofiad perthnasol yn y meysydd uchod,
- Yn cyfrannu safbwyntiau amrywiol ac ymrwymiad cadarn i degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.

Os ydych chi'n angerddol am weithgarwch corfforol, wedi ymrwymo i gynhwysiant, ac eisiau gwneud gwahaniaeth yn ein rhanbarth ni - ac os ydych chi'n barod i hyrwyddo, herio a chefnogi ein gwaith - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Cofion cynnes,
Yr Athro Leigh Robinson
Cadeirydd, Partneriaeth Actif Canolbarth y De

# Trosolwg o **Bartneriaeth Actif Canolbarth y De**

Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru i ddatblygu ein partneriaeth chwaraeon ranbarthol newydd.

Mae PACD ar siwrnai i newid y tirlun chwaraeon cymunedol ledled rhanbarth Canolbarth y De a sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu darparu.

Y nod yw creu newid sylweddol yn y lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith pobl yn ein rhanbarth. Gyda'n gilydd rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i fod yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth:

*“Gyda'n gilydd rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i fod yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth”*

Bydd ein Partneriaeth yn dod â rhanddeiliaid allweddol ar draws Canolbarth y De at ei gilydd, rhanddeiliaid sy'n deall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd ein Partneriaeth yn cael ei harwain gan wybodaeth a bydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei dull o weithredu, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol, gyda diben cyffredin yn cael ei gyflawni ar lefel leol gan sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ystod o gyfleoedd sy’n diwallu eu hanghenion orau .

Rydym yn awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio i’r eithaf ar y potensial ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol, a hefyd creu gweledigaeth llawn cymhelliant a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws pob diwydiant.

Wrth galon y bartneriaeth bydd Bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol.

# Ein Hamcanion Strategol



## Ein Hamcanion Strategol:

### Creu Cymdeithasau Actif - Normau ac Agweddau Cymdeithasol

Creu newid patrwm ym mhob rhan o’r gymdeithas drwy wella gwybodaeth am, a dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o, fanteision niferus chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd, yn unol â gallu ac ym mhob oedran.

### Creu Amgylcheddau Actif – Gofod a Llefydd

Creu a chynnal amgylcheddau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pawb, o bob oedran, i gael mynediad cyfartal i lefydd a gofodau diogel, yn eu dinasoedd a'u cymunedau, i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd, yn unol â gallu.

### Creu Pobl Actif – Rhaglenni a Chyfleoedd

Creu a hyrwyddo mynediad i gyfleoedd a rhaglenni, ar draws lleoliadau niferus, i helpu pobl o bob oedran a gallu i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd fel unigolion, teuluoedd a chymunedau.

### Creu Systemau Actif - Galluogwyr Llywodraethu a Pholisi


Creu a chryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu, partneriaethau aml-sector, y gweithlu, eiriolaeth, systemau ymchwil a gwybodaeth ar draws sectorau i gyflawni rhagoriaeth mewn cynnull adnoddau a rhoi gweithredu cydlynol rhyngwladol, cenedlaethol ac is-genedlaethol ar waith.

# Ein Dull o Weithredu



**Bydd PACD yn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy roi’r egwyddorion arweiniol hyn ar waith:**

- Gwneud penderfyniadau ar sail data a gwybodaeth.
- Gweithredu gydag integriti, atebolrwydd a thryloywder.
- Blaenoriaethu baich gwaith a meysydd a all wneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynaliadwyedd a chynhwysiant ym mhob cam gweithredu.
- Mynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol-economaidd a gwledig sy'n wynebu'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.
- Rhoi buddiannau cyfranogwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau dull sy’n canolbwyntio ar y cyfranogwr o weithredu.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan ddarparu ar gyfer natur amrywiol y sector i sicrhau diogelwch, lles a llesiant pawb sy'n cymryd rhan.
- Sicrhau bod safonau diogelu yn cael eu bodloni ym mhob rhan o PACD.
- Denu buddsoddiad o ffynonellau cyllid eraill.
- Sefydlu sail ar gyfer sgyrsiau am sut gall Aelodau PACD wella fel sefydliadau.
- Datblygu fframwaith canlyniadau gyda ffocws, sy'n mynd i'r afael ag anghenion trigolion y rhanbarth.



# Cyfarwyddwr Anweithredol

## Rôl Aelod Bwrdd Cyffredinol:

- Darparu arweinyddiaeth strategol effeithlon ac effeithiol i Bartneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD).
- Cynnal a gweithio tuag at weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, ymddygiadau ac amcanion PACD a sicrhau bod y sefydliad yn parhau i weithio tuag at y rhain.
- Manteisio ar rwydweithiau i gefnogi codi arian, datblygu sefydliadol a busnes.
- Bob amser yn gweithredu er budd PACD mewn perthynas ag asedau, eiddo, rhwymedigaethau statudol a gofynion rheoli fel yr amlinellir yn Llawlyfr y Bwrdd.
- Cytuno ar amserlen o faterion sydd wedi'u neilltuo yn benodol ar gyfer gwneud penderfyniadau mawr gan y Bwrdd Partneriaeth.
- Sicrhau bod PACD yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a llywodraethu perthnasol.
- Hyrwyddo rheolaeth ddoeth ac effeithiol ar adnoddau sefydliadol (Ariannol a dynol).



# Cyfarwyddwr Anweithredol

## Rôl Aelod Bwrdd Cyffredinol (parhad):

- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau ar waith a fydd yn cefnogi amcanion PACD.
- Datblygu a monitro strategaethau rheoli risg effeithiol ar gyfer PACD.
- Datblygu a monitro rheolaethau a systemau mewnol sy'n dryloyw ac yn atebol i randdeiliaid.
- Creu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol â rhanddeiliaid.
- Bob amser, gweithredu gyda gonestrwydd a chynnal buddiannau PACD.
- Hyrwyddo gwaith PACD a gweithredu fel llefarydd ar ran PACD lle bo angen.



# **Cyfarwyddwr Anweithredol** gyda Chyfrifoldebau Marchnata a Chyfathrebu

**Ochr yn ochr â chyfrifoldebau cyffredinol rôl y Bwrdd, bydd gan y Cyfarwyddwr gyda chyfrifoldebau Marchnata a Chyfathrebu y cyfrifoldebau canlynol:**

- Darparu cyfeiriad strategol mewn perthynas â datblygu brand PACD a'i ddarpariaeth gysylltiedig sy'n gysylltiedig â gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, ymddygiadau ac amcanion cyffredinol PACD.

- Gweithio gyda'r Bwrdd / Tîm Gweithredol a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cefnogaeth a pherchnogaeth ranbarthol o'r brand, yn ystod y lansiad ac wrth ddatblygu cynlluniau busnes ar gyfer twf ac arallgyfeirio.

- Cefnogi a gyrru strategaeth farchnata a chyfathrebu PACD.

- Gweithio gyda thîm PACD a rhanddeiliaid eraill i ddeall grwpiau targed allweddol a datblygu gwybodaeth a fydd yn sail i'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r strategaeth gomisiynu.

- Cefnogi gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus wrth baratoi ar gyfer ac yn ystod digwyddiadau a gweithgareddau rhanbarthol.

- Darparu mewnbwn am becynnau masnachol, yn enwedig mewn perthynas ag aliniad brand a marchnata cyfleoedd i fanteisio ar werthoedd brand PACD.

- Darparu mewnbwn i ddatganiadau i'r wasg ac ymgyrchoedd marchnata.



# **Cyfarwyddwr Anweithredol** gyda Chyfrifoldebau Ariannol

**Ochr yn ochr â chyfrifoldebau cyffredinol rôl y Bwrdd, bydd gan y Cyfarwyddwr gyda chyfrifoldebau ariannol y cyfrifoldebau canlynol :**

- Darparu cyfeiriad ariannol strategol i gefnogi Bwrdd y Bartneriaeth i gyflawni ei nodau strategol.
- Cynorthwyo Bwrdd y Bartneriaeth i nodi, deall a rheoli ei risgiau ariannol.
- Darparu cyfeiriad strategol i sicrhau bod PACD yn gadarn ac yn gynaliadwy yn ariannol.
- Sicrhau bod Bwrdd y Bartneriaeth yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol.
- Sicrhau bod PACD yn cyflawni safonau uchel o lywodraethu ariannol a gwneud penderfyniadau tryloyw.



# **Cyfarwyddwr Anweithredol** gyda Chyfrifoldebau Masnachol

**Ochr yn ochr â chyfrifoldebau cyffredinol rôl Bwrdd, bydd gan y Cyfarwyddwr gyda Chyfrifoldebau Masnachol y cyfrifoldebau canlynol:**

- Darparu craffter masnachol a gwybodaeth strategol i gefnogi cenhadaeth y sefydliad o hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Darparu goruchwyliaeth annibynnol a mewnbwn strategol ar faterion masnachol ac ariannol.
- Cefnogi datblygiad ffrydiau incwm cynaliadwy, gan gynnwys nawdd, codi arian, a phartneriaethau.
- Cynghori ar leoli brand, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyfleoedd yn y farchnad.
- Sicrhau cydlynu rhwng gweithgareddau masnachol ac amcanion nid-er-elw'r sefydliad.



# Manyleb y Person




- Tystiolaeth o lwyddiant, o fewn neu y tu allan i'r sector chwaraeon, mewn amgylchedd sefydliad Rhanbarthol neu gydweithredol, Elusen, Corfforaethol, Iechyd, Tai, Addysg, Cydraddoldeb neu Wasanaethau Proffesiynol.
- Tystiolaeth o'r gallu i weithredu gyda phroffesiynoldeb a chywirdeb, a gydag athroniaeth gref o degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.
- Tystiolaeth o arwain mewn amgylchedd o newid.
- Profiad o gynllunio strategol a rheolaeth strategol.
- Gwybodaeth am y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol a'u potensial.
- Cymwysterau a phrofiad perthnasol sy'n benodol i'r disgwyliadau a amlinellir yn nisgrifiadau rôl y Bwrdd.

# Gwybodaeth Bellach a'r Broses Recriwtio



CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP | PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE

I ddechrau, bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn fisol ond bydd yn adolygu amledd ei gyfarfodydd wrth iddo ddod yn fwy sefydledig.

Prif rôl Bwrdd Partneriaeth Actif Canolbarth y De yw sicrhau bod cyfeiriad strategol ac amcanion PACD yn cael eu datblygu, monitro perfformiad a defnyddio gwybodaeth a dysgu i wella a thargedu ei darpariaeth yn barhaus.

## Tymor:

Y tymor gwasanaethu yw 3 blynedd. Ni chaiff unrhyw Gyfarwyddwr wasanaethu am fwy na dau dymor olynol o 3 blynedd yn y swydd.

## Tâl:

Gwirfoddol.

## Ymholiadau a Gwybodaeth Bellach

Byddem yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, pobl LHDT+ a phobl anabl.

Am ragor o fanylion am y rôl neu i drafod eich cais, cysylltwch â:
**Leigh.Robinson2012@outlook.com**

**Dyddiad Cau ar gyfer Ymgeisio: Dydd Llun 7fed Gorffennaf**
**Cyfweliadau: Dydd Llun 21ain Gorffennaf**

## Sut i ymgeisio:

Os ydych chi'n feddyliwr strategol sydd ag ymrwymiad llwyr i wella iechyd, lles a hapusrwydd pobl yng Nghanolbarth y De, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Fel rhan o'ch cais, cyflwynwch y canlynol:**

- Eich **CV diweddar** yn manylu ar eich profiad proffesiynol, cefndir addysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n cefnogi eich cais.
- **Llythyr cais** (dim mwy na 2 dudalen A4), yn tynnu sylw at eich addasrwydd ar gyfer y rôl gan gyfeirio at y gofynion a geir ym manyleb y person. Amlinellwch brofiad perthnasol a'ch gweledigaeth ar gyfer cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De.

Dylech anfon eich CV a'ch llythyr cais atom ni ar e-bost i **hr@cobalt-hr.co.uk**

Defnyddiwch y canlynol yn y llinell pwnc:

Cais Cyfarwyddwr Anweithredol (Marchnata a Chyfathrebu / Cyllid / Chyfrifoldebau / Cyfarwyddwr Cyffredinol) – **[Eich Enw Llawn]**

**Hysbysiad Preifatrwydd:** Drwy gyflwyno eich cais, rydych chi'n cytuno i Cobalt HR brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac yn edrych ymlaen at ystyried eich un chi. Diolch i chi am eich diddordeb mewn cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De. Pob lwc gyda'ch cais!